

2012 Rhif 274 (Cy. 44)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Cyffordd 1, Rhiwabon, Wrecsam)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro a
Therfyn Cyflymder 40 mya) 2012**

Gwnaed 3 Chwefror 2012

Yn dod i rym 13 Chwefror 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Chwefror 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 1, Rhiwabon, Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 mya) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (*“exempted vehicle”*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith a arweiniodd at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (*“works period”*) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 09:30 o'r gloch ar 13 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (*“the lengths of the trunk road”*) yw:

i. y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A483 wrth Gyffordd 1, Rhiwabon ym Mwrdeistref

Sirol Wrecsam sy'n ymestyn o bwynt 900 o fetrau i'r de o ganolbwynt trosbont y B5097 i bwynt 1600 o fetrau i'r gogledd o'r drosbont honno;

ii. y darn o gerbyttfordd tua'r de cefnffordd yr A483 wrth Gyffordd 1, Rhiwabon ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n ymestyn o bwynt 1900 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt trosbont y B5097 i bwynt 200 o fetrau i'r de o'r drosbont honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darnau o'r gefnffordd.

5. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion
Cymru.

Dyddiedig

3 Chwefror 2012

G R Morgan

GARETH MORGAN

Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.